

# Dewis eich lefel

Os ydych yn ansicr o'ch lefel, gallwn drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb neu drafodaeth dros y ffôn i'ch helpu i ddewis y cwrs mwyaf addas. Ffoniwch +44 (0)29 2087 4710 neu ebostiwch [info@learnwelsh.co.uk](mailto:info@learnwelsh.co.uk) am ragor o wybodaeth.

**Dyma grynodedb o'r lefelau:**

## Mynediad

Yn addas ar gyfer dechreuwyr pur neu ddysgwyr sydd wedi cwblhau cwrs blasu Cymraeg. Mae'r pwyslais ar sgwrsio. Byddwch yn dysgu patrymau sylfaenol, cyfarchion a geirfa a byddant yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol gan ddefnyddio'r amser presennol, y gorffennol, a'r dyfodol erbyn diwedd y lefel.

## Sylfaen

Mae'r cwrs Sylfaen ar gyfer dysgwyr sydd wedi cwblhau'r lefel Mynediad yn llwyddiannus neu sydd â rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am yr iaith gan gynnwys patrymau'r presennol, y gorffennol a'r dyfodol.

## Canolradd (Cyfateb i Lefel TGAU)

Yn addas ar gyfer y sawl sydd wedi cwblhau'r lefelau Mynediad a Sylfaen neu sydd yn gysurus â phatrymau sylfaenol yr iaith fel y gorffennol, y presennol, y dyfodol a'r amodol (e.e. "baswn i"). Ar siarad y mae'r pwyslais o hyd ond byddwn yn cyflwyno mwy o ysgrifennu, darllen a gwrando. Dylai dysgwyr allu trafod materion bob dydd yn eithaf hawdd erbyn diwedd y lefel hon.

## Uwch 1 a 2 (Cyfateb i Lefel AS)

Mae'r lefel hon yn anelu at godi hyder dysgwyr i sgwrsio ac ysgrifennu am bethau heblaw materion bob dydd. Bydd pynciau a materion cyfoes yn cael eu trafod yn y dosbarth. Ceir cyfle hefyd i ymarfer patrymau a phwyntiau gramadegol penodol er mwyn creu brawddegau mwy cymhleth.

